

201- Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40
(Travellers Rest, Sir Gaerfyrddin)
(Terfynau Cyflymder 50 mya a 30
mya) 201-

Gwnaed

***** 201-

Yn dod i rym

**** 201-

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd yr A40, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(1)(a) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984⁽¹⁾ ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Travellers Rest, Sir Gaerfyrddin) (Terfynau Cyflymder 50 mya a 30 mya) 201- a daw i rym ar **** 201-.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984⁽²⁾;

⁽¹⁾ 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

⁽²⁾ Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

201- No. (W.)

ROAD TRAFFIC, WALES

The A40 Trunk Road (Travellers
Rest, Carmarthenshire) (50 mph &
30 mph Speed Limits) Order 201-

Made

**** 201-

Coming into force

**** 201-

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant lengths of the A40 Trunk Road, in exercise of the powers conferred upon them by section 84(1)(a) and (2), of the Road Traffic Regulation Act 1984⁽¹⁾ and after consultation with the Chief Officer of Dyfed-Powys Police, make this Order.

Title, Commencement and Interpretation

1. The title of this Order is the A40 Trunk Road (Travellers Rest, Carmarthenshire) (50 mph & 30 mph Speed Limits) Order 201- and it comes into force on **** 201-.

2. In this Order:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

- (a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984⁽²⁾;

⁽¹⁾ 1984 c.27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

⁽²⁾ Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiadau

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau hynny o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

5.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

**** 201-

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

- (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
- (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A40 London to Fishguard Trunk Road.

Restrictions

3. No person may drive any vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 50 miles per hour on the length of the trunk road described in Schedule 1 to this Order.

4. No person may drive any vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 30 miles per hour on those lengths of the trunk road described in Schedule 2 to this Order.

5.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated ***** 201-

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

TERFYN CYFLYMDER 50 MYA

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 2.21 o gilometrau i'r gorllewin o'i chyffordd â cherbyttfordd gylchredol Cylchfan Lesneven hyd at bwynt 1 cilometr i'r gorllewin o'r gyffordd honno, gan gynnwys y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd Travellers Rest.

ATODLEN 2

TERFYN CYFLYMDER 30 MYA

Y ffyrdd ymuno ac ymadael o'u cyffyrdd â phrif gerbyttfordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A40 hyd at bwynt 412 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r W4110 Manor Way (o'r enw Ffordd Gyswllt yr A40 i Farchnad Da Byw Caerfyrddin).

Y darn o'r gefnffordd sy'n rhan o Heol Sanclêr sy'n ymestyn o'i chyffordd â Ffordd Gyswllt yr A40 i Farchnad Da Byw Caerfyrddin tua'r dwyrain, ac yna tua'r gogledd, am gyfanswm pellter o 567 o fetrau (o'r enw Ffordd Gyswllt Ddeheuol yr A40 i Drosbont Travellers Rest).

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (TRAVELLERS REST, SIR GAERFYRDDIN) (TERFYNAU CYFLYMDER 50 MYA A 30 MYA) 201-

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 84(1)(a) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn fydd gosod terfynau cyflymder 50 mya a 30 mya ar y darnau o gefnffordd yr A40 yn Travellers Rest, Sir Gaerfyrddin, a ddisgrifir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Hysbysiad hwn. Mae terfyn cyflymder 30 mya dros dro (O.S. 2018/1028) (Cy. 216) a gwaharddiad dros dro ar gerbydau a therfyn cyflymder 30 mya dros dro (O.S. 2018/1418) (Cy. 266) mewn grym ar hyn o bryd yn y lleoliad uchod a chânt eu dirymu mewn gorchymyn dirymu ar wahân.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 17 Ebrill 2019, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, y plan, Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn a'r Gorchymyn sy'n cael ei ddirymu yn ystod oriau agor arferol yng Nghanolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid Cyngor Sir Caerfyrddin,

SCHEDULES

SCHEDULE 1

50 MPH SPEED LIMIT

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from a point 2.21 kilometres west of its junction with the circulatory carriageway of Lesneven Roundabout to a point 1 kilometre west of that junction including the entire lengths of the eastbound entry and exit slip roads at Travellers Rest Junction.

SCHEDULE 2

30 MPH SPEED LIMIT

The entry and exit slip roads from their junctions with the main westbound carriageway of the A40 trunk road to a point 412 metres west of the centre-point of its junction with W4110 Manor Way (known as the A40 Link Road to Carmarthen Livestock Market).

The length of the trunk road being part of St Clears Road that extends from its junction with the A40 Link Road to Carmarthen Livestock Market in an easterly, then northerly, direction for a total distance of 567 metres (known as the A40 Southern Link Road to Travellers Rest Over-bridge).

THE A40 TRUNK ROAD (TRAVELLERS REST, CARMARTHENSIRE) (50 MPH AND 30 MPH SPEED LIMITS) ORDER 201-

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under sections 84(1)(a) and (2) to the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the Order will be to impose 50 mph and 30 mph speed limits on the lengths of the A40 trunk road at Travellers Rest, Carmarthenshire described in Schedule 1 and Schedule 2 to this Notice. A temporary 30 mph speed limit (S.I. 2018/1028) (W. 126) and a temporary prohibition of vehicles and 30 mph speed limit (S.I. 2018/1418) (w.266) are currently in place at the above location and will be revoked in a separate revocation order.

During a period of 21 days from 17 April 2019 a copy of the proposed Order, plan, Statement of Reasons for making the Order and the Order being revoked may be inspected, during normal opening hours at Carmarthenshire County Council, Customer Services, 40 Spillman Street, Carmarthen, SA31 1LQ or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1256624.

40 Heol Spilman, Caerfyrddin, SA31 1LQ neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1256624.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau yn ysgrifenedig, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu drwy e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru erbyn 8 Mai 2019. Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd arnom angen ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ein galluogi i ymdrin â'r materion yr ydych wedi eu dwyn i'n sylw. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol penodol gael ei anfon ymlaen at drydydd partïon, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd partïon priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus lleol yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://gweddi.gov.wales/legislation/subordinate) ar <https://gweddi.gov.wales/legislation/subordinate> (detholer: Deddfwriaeth ddrafft/ Offerynnau statudol lleol drafft/ Gorchmynion Traffig Parhaol).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

C McCARTHY
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

Objections, specifying the grounds on which they are made, must be sent in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ or by email to TransportOrdersBranch@gov.wales by 8 May 2019. Should you wish to object, support or make representations, we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of the process of consulting with others we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to enable us to deal with issues you have brought to our attention. If you do not wish for certain personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gweddi.gov.wales/legislation/subordinate> (select: Draft Legislation/ Draft Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

C McCARTHY
Transport
Welsh Government

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

TERFYN CYFLYMDER 50 MYA

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 2.21 o gilometrau i'r gorllewin o'i chyffordd â cherbyttfordd gylchredol Cylchfan Lesneven hyd at bwynt 1 cilometr i'r gorllewin o'r gyffordd honno, gan gynnwys y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd Travellers Rest.

ATODLEN 2

TERFYN CYFLYMDER 30 MYA

Y darnau o'r gefnffordd sef y ffyrdd ymuno ac ymadael o'u cyffyrdd â phrif gerbyttfordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A40 hyd at bwynt 412 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r W4110 Manor Way (o'r enw Ffordd Gyswllt yr A40 i Farchnad Da Byw Caerfyrddin).

Y darn o'r gefnffordd sy'n rhan o Heol Sanclêr sy'n ymestyn o'i chyffordd â Ffordd Gyswllt yr A40 i Farchnad Da Byw Caerfyrddin tua'r dwyrain, ac yna tua'r gogledd, am gyfanswm pellter o 567 o fetrau (o'r enw Ffordd Gyswllt Ddeheuol yr A40 i Drosbont Travellers Rest).

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (TRAVELLERS REST, SIR GAERFYRDDIN) (TERFYNAU CYFLYMDER 50 MYA A 30 MYA) 201-

DATGANIAD O'R RHESYMAU

Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er budd diogelwch ar y ffyrdd.

Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gostwng cyflymder traffig ar hyd y rhan hon o'r A40 i alluogi creu amgylchedd diogel ar gyfer y cynnydd yng ngweithgarwch cerddwyr a beicwyr yn yr ardal a'r cynnydd yn nifer y cerbydau a fydd yn defnyddio'r gyffordd hon yn dilyn agor Ffordd Gyswllt Orllewinol Caerfyrddin.

Mae terfyn cyflymder 30 mya dros dro (O.S. 2018/1028) (Cy. 216) a gwaharddiad dros dro ar gerbydau a therfyn cyflymder 30 mya dros dro (O.S. 2018/1418) (Cy. 266) mewn grym ar hyn o bryd yn y lleoliad uchod a chânt eu dirymu mewn gorchymyn dirymu ar wahân. Nid oes angen y gwaharddiad dros dro hwn ar gerbydau mwyach, oherwydd nad oedd ond ei angen i adeiladu Ffordd Gyswllt Orllewinol

SCHEDULES

SCHEDULE 1

50 MPH SPEED LIMIT

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from a point 2.21 kilometres west of its junction with the circulatory carriageway of Lesneven Roundabout to a point 1 kilometre west of that junction including the entire lengths of the eastbound entry and exit slip roads at Travellers Rest Junction.

SCHEDULE 2

30 MPH SPEED LIMIT

The lengths of the trunk road being the entry and exit slip roads from their junctions with the main westbound carriageway of the A40 trunk road to a point 412 metres west of the centre-point of its junction with W4110 Manor Way (known as the A40 Link Road to Carmarthen Livestock Market).

The length of the trunk road being part of St Clears Road that extends from its junction with the A40 Link Road to Carmarthen Livestock Market in an easterly, then northerly, direction for a total distance of 567 metres (known as the A40 Southern Link Road to Travellers Rest Over-bridge).

THE A40 TRUNK ROAD (TRAVELLERS REST, CARMARTHENSHIRE) (50 MPH AND 30 MPH SPEED LIMITS) ORDER 201-

STATEMENT OF REASONS

The proposed Order is required in the interest of road safety.

The proposed order is required to reduce the speed of traffic along this section of the A40 to enable a safe environment to be provided for the increased pedestrian and cycle activity in the area and the increased number of vehicles which will be using this junction following the opening of the Carmarthen Western Link Road.

A temporary 30 mph speed limit (S.I. 2018/1028) (W. 126) and a temporary prohibition of vehicles and 30 mph speed limit (S.I. 2018/1418) (w.266) are currently in place at the above location and will be revoked in a separate revocation order. The temporary prohibition of vehicles is no longer required, as it was only needed to construct the new Carmarthen Western Link Road which is now open to traffic.

Caerfyrddin sydd bellach ar agor i draffig.

Cynhaliwyd adolygiad o'r terfynau cyflymder ar y rhan hon o'r A40 yn unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cymru 24/2009 — 'Canllawiau ar gyfer Pennu Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru'. Nid oedd y datblygiad tai arfaethedig yn hysbys pan gynhaliwyd yr adolygiad o'r rhan hon o'r ffordd. Yr argymhelliad oedd peidio â newid y terfynau cyflymder presennol, ond oherwydd y datblygiad tai arfaethedig, ystyriwyd y byddai'n briodol gostwng y terfyn cyflymder i 30 mya a 50 mya.

The speed limits on this section of A40 have been reviewed in line with the Welsh Government Circular 24/2009 entitled 'Guidance on Setting Local Speed Limits in Wales'. When the review was undertaken on this section the proposed housing development was not known. The recommendation was not to change the current speed limits, but with the proposed housing development, a reduction for the speed limit to 30mph and 50mph would be considered appropriate.